



Amcanion amgylcheddol 2019/2022

Amcan amgylcheddol 1 - datgarboneiddio

Cyflawniad - Llai o allyriadau carbon

Sut: Cyflwyno cynllun gweithredu carbon-bositif 2019/22, rhaglen datgarboneiddio i gynnwys;

- Ôl-osod adeiladau â ffotofoltäig solar - mae chwe safle wedi'u blaenoriaethu
- Gostwng defnydd tanwydd y fflyd sydd wedi'i fathodi 5% trwy osod system delemateg
- Datblygu isadeiledd gwefru cerbyd trydan (EV) - mae naw safle wedi eu blaenoriaethu
- Cynyddu milltiroedd y cerbydau trydan 10% o flwyddyn i flwyddyn
- Nodi a chyflwyno rhaglen o brosiectau mawndir - tri safle yn y flwyddyn gyntaf



Yn ystod y cyfnod 2013/18 rydym eisoes wedi cyflawni gostyngiad o 33% mewn allyriadau carbon

Amcan amgylcheddol 2 - ein datblygu i fod yn sefydliad rhagorol

Cyflawniad - Cynllun Teithio Gweithredol a Chynaliadwy ar gyfer CNC

Sut: datblygu mecanweithiau i deithio llesol fod yn hoff ddewis teithio cymudwyr CNC ac ar gyfer teithiau busnes priodol

- Nodi nifer y gweithwyr sy'n aml yn cerdded neu'n beicio at ddibenion teithio llesol, a thros amser, gynyddu'r nifer hon
- Gwella cyfleusterau storio beiciau a newid yn swyddfeydd CNC
- Cynyddu opsiynau teithio llesol a chynaliadwy ar gyfer cymudo staff a theithio busnes
- Cael achrediad "Cyflogwr Cyfeillgar i Feicwyr" (CFE)
- Teithio cynaliadwy i'w ystyried mewn adolygiadau llety



Cwblhawyd arolwg staff fis Chwefror 2019 i gael data sylfaenol

Amcan amgylcheddol 3 - Lleihau gwastraff

Cyflawniad - gostyngiad yng ngwastraff plastig CNC

Sut: I gael y gostyngiad mwyaf mewn plastigau yn CNC, gan gynnwys Plastigau Defnydd Sengl a phecynnu, byddwn yn;

- Cadarnhau data sylfaenol ac yn nodi mentrau arfer gorau ar gyfer lleihau plastig
- Arwain y ffordd o ran lleihau plastig yng Nghymru
- Defnyddio llais CNC i ddylanwadu ar newid yn LIC
- Newid arferion caffael y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ('plastig-bositif')
- Datblygu rhwydwaith o gyflenwyr ardystiedig i ddiwallu anghenion caffael y sector cyhoeddus
- Ymrwymiad i Addewid Moroedd Glân y Cenhedloedd Unedig
- Targed o ddim plastigau untro yn CNC erbyn 2030




Cynhaliwyd Gweithdy Lleihau Plastigau yn ystod diwrnod #TÎMCNC 2018 i lansio'r fenter

Amcan amgylcheddol 4 - rheoli tir a dŵr yng Nghymru yn gynaliadwy

Cyflawniad - Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal ardystiad coetiroedd (Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU) ar gyfer Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yr ydym yn ei rheoli

Sut: Cynnal o leiaf wyth archwiliad mewnol i wirio cydymffurfiaeth ag UKWAS a chau'r holl Geisiadau Camau Cywiro (CAR) a godwyd mewn archwiliadau allanol ac osgoi troi Sylwadau yn CAR



Yn 2018/19 cwblhaodd archwilio mewnol 14 archwiliad, gan godi 9 CAR a 35 o Sylwadau